Appendix D

# Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe 2023-2026



## Fersiwn Gryno

Bawso
New Pathways
SWA Swansea Women's Aid
stori
calan dvs Providing sanctuary. Inspiring change.
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board
Cyngor Abertawe Swansea Council

# Vision

*"Mae angen i'r holl ddinasyddion yn Abertawe fod yn ddiogel, yn hapus ac yn iach a byw heb ofni trais, camfanteisio, aflonyddu a chamdriniaeth, yn ei holl ffurfiau"*

Mae Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau partner arbenigol a goroeswyr camdriniaeth i ddatblygu'r strategaeth hon. Byddant yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i'w chyflwyno i sicrhau bod pobl y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio arnynt yn cael mynediad at wasanaethau a chefnogaeth arbenigol.

Mae Cyngor Abertawe am sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chydnabod fel 'busnes i bawb' a'i bod yn cael ei chydnabod ym mhob rhan o Abertawe.

Amcangyfrifir bod

**2.4 miliwn**

o oedolion yn profi rhyw fath o gam-drin domestig mewn blwyddyn

y mae

**1.7 miliwn**

ohonynt yn

**fenywod**

Ar gyfartaledd, caiff

**2 fenyw**

yr wythnos eu lladd gan eu partner presennol neu gyn-bartner

Mae tua

**½ miliwn**

o oedolion yn dioddef ymosodiadau rhywiol bob blwyddyn

ac mae tua

**85,000**

**o fenywod**

a

**12,000**

**o ddynion**

yn cael eu treisio bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr.

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod Cam-drin Domestig yn costio **£303.5m** y flwyddyn: **£202.6m** mewn costau gwasanaeth a £100.9m ar gyfer allbwn economaidd coll. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, yr amcangyfrifir gan ymchwil eu bod yn costio **£522.9m** ychwanegol i Gymru.

## Mae gan Abertawe ystod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar Atal, Diogelu a Chefnogi i'r rheini sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**Hwb Cam-drin Domestig -** mae'n cynnig ymagwedd teulu cyfan sydd â'r nod o atal pethau rhag gwaethygu a chyfyngu atgyfeiriadau i wasanaethau plant statudol. 01792- 636512

**Equilibrium -** Ymagwedd teulu cyfan ar gyfer troseddwyr, dioddefwyr a phlant/phobl ifanc.

**CMET -** Mae'n cefnogi unigolion sydd wedi profi neu sydd mewn perygl o brofi niwed sylweddol gan bobl y tu allan i'r cartref teuluol gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu, cam-fanteisio troseddol ar blant, cyfoedion yn cam-drin ei gilydd ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

**Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Mae'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr sydd mewn perygl mawr o gam-drin domestig, gan sicrhau eu diogelwch a'u cefnogi drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol a Chyfiawnder Sifil.

**Prosiect Spectrum -** Mae'n cyflwyno sesiynau ar Berthnasoedd Iach a phynciau VAWDASV ym mhob ysgol uwchradd a chynradd yng Nghymru, gan gynnwys Abertawe.

**MARAC:** Cyfarfod amlasiantaeth lle rhennir gwybodaeth am yr achosion cam-drin domestig risg uchaf i sicrhau cynllun diogelwch ac i leihau'r risg o gam-drin.

**Eiriolwr Annibynnol ar Gam-drin Domestig Iechyd BIPBA:** Annibynnol ar Gam-drin Domestig - Iechyd yn asesu risgiau cleifion, yn cynyddu ymwybyddiaeth o drais domestig a cham-drin domestig ac yn sefydlu ac yn cynnal cysylltiadau iechyd â fforymau diogelu/amlasiantaeth perthnasol.

**IRIS**
**(Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch):**
Mae'n rhaglen hyfforddiant, cefnogi ac atgyfeirio gyffredinol ar drais a cham-drin domestig sy'n seiliedig ar feddygfeydd teulu, sy'n gydweithrediad rhwng sefydliadau gofal sylfaenol a thrydydd sector sy'n arbenigo mewn trais a cham-drin domestig.

**CALAN DVS:** Mae Calan DVS yn elusen trais a cham-drin domestig yng Nghymru sy'n gweithredu gwasanaethau ar draws de, canolbarth a gorllewin Cymru ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ar draws Abertawe. Manylion cyswllt 01639 633 580 - enquiries@calandvs.org.uk

**BAWSO:**
Darparwr arbenigol arweiniol gwasanaethau i bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig a du (BME) yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM), masnachu pobl, puteindra a phriodas dan orfod. 01792 642003 - swansea@bawso.org.uk

**New Pathways -** Darparwr mwyaf gwasanaethau cymorth trais rhywiol arbenigol yng Nghymru, sy'n darparu ystod o gefnogaeth i bobl o bob rhywedd ac oed yr effeithiwyd arnynt gan drais rhywiol, ymosodiadau rhywiol, cam-drin rhywiol a cham-fanteisio rhywiol. Manylion Cyswllt : 01685 379310 - enquires@new pathways.org.uk

**Cymorth i Fenywod Abertawe -**
Prosiectau a arweinir gan oroeswyr yw Prosiect 'Your Opinion Matters'/Prosiect Cydgynhyrchu sydd â'r nod o wella'u lles a chynyddu eu gallu i hunanreoli effeithiau tymor hir cam-drin domestig. Manylion Cyswllt: 01792 644683

**Stori:**
Sefydliad sy'n cynnig cefnogaeth i fenywod, dynion plant a theuluoedd ag ystod eang o anghenion - gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref, sydd wedi profi cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl ac yn cefnogi pobl i reoli effaith caethiwed. 01792 345751

**DRIVE:** Ymyriad dwys sy'n gweithio gyda throseddwyr lluosog a niwed uchel i herio ymddygiad camdriniol ac atal cam-drin.

**Cymorth i Fenywod** - Sefydliad i fenywod yn unig yw hwn sy'n cynnig set o wasanaethau i fenywod sydd â phlant neu heb blant, yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Manylion Cyswllt: 01792 644683

# Tystlythyrau goroeswyr sydd wedi cael mynediad at wasanaethau arbenigol ar draws Abertawe

*"Rwy'n gwybod nawr â phwy y dylwn gysylltu pe bai gen i bryderon. Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn codi'r ffôn i rannu fy mhryderon â gweithwyr proffesiynol. Cyn i mi gael y gefnogaeth hon, roeddwn i'n cadw popeth i mi fy hun ac roedd yn fy ynysu. Doeddwn i ddim yn gwybod at bwy i droi ond nawr rwy'n teimlo bod gen i gylch da o gefnogaeth o'm cwmpas"*

*"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus nawr oherwydd popeth dwi wedi bod drwyddo. Roedd fy ngweithiwr cefnogi'n hyfryd, a rhoddodd gefnogaeth i mi drwy'r llys. Rhoddwyd strategaethau i mi ar sut i ddelio â thrais domestig os yw'n digwydd ac i allu gweld ymddygiadau cyn i sefyllfa ddigwydd eto"*

# 7 Amcan Strategol

Mae'r strategaethau hyn yn unol â Strategaeth Genedlaethol VAWDASV (22-26) Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi Abertawe i ddangos ein hymrwymiad a'n cefnogaeth i Lywodraeth Cymru a'n cymunedau wrth gyflawni ei hamcanion mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

## Amcan 1

Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.

## Amcan 2

Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

## Amcan 3

Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.

## Amcan 4

Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.

## Amcan 5

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

## Amcan 6

Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau ac anghenion, ac sy'n ymatebol ledled Cymru.

## Amcan 7

Paratoi tystiolaeth gadarn i gyfeirio'n gwaith.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Live Fear Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

call • text • live chat • email

For confidential information, advice or support around domestic abuse, sexual violence or violence against women.

